

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED

Cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful ddydd Mawrth, 19 Medi 2017 am 2pm.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

M. Colbran, J. Thomas, D. Isaac a D. Chaplin

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

H. Boggis a G. Jones

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms. J. Lewis – Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau

Mr. A. Wilkins – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Corfforaethol a
Llywodraethol

Mr. S. Preddy – Cyfrifydd Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned

Ms. H. Williams (Swyddfa Archwilio Cymru)

42 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol (Mrs) A. Crimmings, K. Morgan ac A. S. Fox (Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

2 DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

3 ETHOL CADEIRYDD CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED AR GYFER 2017-18

PENDERFYNWYD ethol Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D. Isaac yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer blwyddyn 2017-18 y Cyngor.

4 ETHOL IS-GADEIRYDD CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED AR GYFER 2017-18

PENDERFYNWYD ethol Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol H. Boggis yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer blwyddyn 2017-18 y Cyngor.

5 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2017, yn rhai cywir gan nodi i enw D. Isaac gael ei hepgor o dan ymddiheuriadau.

ADRODDIAD Y CLERC

6 AMSERLEN O GYFARFODYDD

Cafodd aelodau gais i drafod yr amserlen arfaethedig o gyfarfodydd chwarterol y Cyd-bwyllgor ar gyfer blwyddyn 2017-18 y Cyngor.

Nododd aelodau y cynnig i gynnal pob cyfarfod yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r calendr o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn 2017-18 y Cyngor.

ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

7 YSTADEGAU A CHYFLAWNIAD

Yn ei hadroddiad, rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau Ystadegau a ffigurau Cyflawniad i'r Aelodau sy'n ymwneud â gweithrediad yr Amlogfa ers y cyfarfod diwethaf ac yn dilyn ystyried yr eitemau hynny, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL (DRAFFT) AR GYFER Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN 31 MAWRTH 2017

Trafododd aelodau adroddiad y Trysorydd a oedd yn nodi Datganiad Blynyddol wedi'i archwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

Nodwyd, er i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed gael ei gynnal yn hwyrach na'r amserlen oherwydd amgylchiadau annisgwyl, doedd hynny ddim yn effeithio ar y ffigurau yn y Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017.

Cafodd aelodau wybodaeth mewn perthynas â'r materion:

- Cyflawniad ariannol a thrafodion cronfeydd mae modd eu defnyddio
- Gweddillion y Gronfa gyffredinol 2012/13 hyd at 2016/17
- Mantolen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017

Yn dilyn ystyried a thrafod y mater, gan hynny, **PENDERFYNWYD** –

- (1) Nodi'r adroddiad.
- (2) Nodi'r Datganiad Blynyddol wedi'i archwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.
- (3) Bod Cadeirydd y Cyd-bwyllgor yn llofnodi'r Adran Cymeradwyo ac Ardystio sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol.

ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU

9 DARPARU GARDD GOFFA I BLANT BACH

Cyflwynodd y Rheolwr yr adroddiad gan nodi'r manylion ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig, sef darparu Gradd Goffa i Blant Bach yn Amlogfa Llwydcoed a fyddai'n costio £18,700, ar amod derbyn sêl bendith y Pwyllgor hwn.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r datblygiad uchod yn Amlogfa Llwydcoed.

10 MATER BRYD

Mewn perthynas â phroblemau a pheryglon blaenorol parthed y draenio ar y safle yn ystod tywydd garw, gofynnodd aelodaeth a oedd bwriad i gynnal rhagor o waith.

Mewn ymateb, dywedwyd y bydd hyn cael ei fonitro dros fisoedd nesaf y gaeaf.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch codi Bwrdd Gwybodaeth i'r Cyhoedd y tu allan i Amlogfa Llwydcoed, dywedodd y byddai hyn yn cael ei adolygu cyn bo hir.

Gofynnodd Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol D. Isaac a fyddai'n bosibl i anfon llythyr o ddiolch ar ran y Pwyllgor a'r rheiny a fu'n rhan o'r Pwyllgor am eu gwaith caled a chyfraniadau mewn cyfarfodydd dros y blynyddoedd.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD** anfon llythyron o ddiolch at gyn-Gynghorwyr Bwrdeistref Sirol A. Jones, A. Chaplin, K. Moran a (Mrs) J. Ward.

**D. ISAAC
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.27pm